**_Theatr Genedlaethol Cymru_**

Cyfarwyddwr: Cefin Roberts

## *Hen Rebel*

Drama gerdd newydd am hanes Evan Roberts
a Diwygiad 1904/5

Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Nos Iau a nos Wener, 20–21 Hydref am 7.30 o'r gloch

*Gyda llond llwyfan o gast a chorws o leisiau corawl bydd 'Hen Rebel' yn gynhyrchiad mawr, iasol, fydd yn dod ag ysbryd 1904/5 yn fyw yn sŵn canu cynulleidfaol cyfareddol.*

## *Mynwent y Garn*

Diolch i bawb fu'n tacluso'r fynwent yn ystod yr haf, ac yn arbennig i Emlyn Rees am ddyfrhau'r planhigion potiau ac am ei gymorth gyda'r sied.

Diolch hefyd am y cyfraniadau a ddaeth i law at dario'r llwybrau. Mae rhestr o enwau'r cyfranwyr i'w gweld yn y festri ac yng nghynteddau Capel y Garn.

Mae angen £5,000 eto i gwblhau'r gwaith, a braf fyddai gweld hynny yn dod i ben yn fuan.

*Eddie Jones*
*Goruchwyliwr y Fynwent*

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 11 Rhagfyr i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 19 www.capelygarn.org Hydref 2005



***Gweinidog***
Parch R W Jones
Haddef
6 Maes Afallen
Bow Street
(01970 828006)
gweinidog@capelygarn.org

***Ysgrifennydd***
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147)
ymholiadau@capelygarn.org

## *Gair gan y Gweinidog*

Bron na allwn ddechrau hyn o lith gyda'r geiriau "Croeso 'nôl!" oherwydd mae rhyw duedd ym misoedd yr haf i bethau fynd ar chwâl! Wedi ymdrech arholiadau, mae'n gyfle i blant a phobl ifanc ymlacio: i ni, y rhai hŷn, bu'n gyfle i rai fynd ar wyliau neu ymdroi mwy yn yr ardd; hyd yn oed i'r rhai prysuraf yn ein plith, bu'n gyfle i ryddhau o'r tresi – pe bai dim ond am ddiwrnod i fynd yma ac acw. Cyfle yw, meddai rhai, i roi'r pŵer yn ôl yn y batri.

A bydd angen y pŵer arnom yn fuan. Yn barod, mae'r gwahanol gymdeithasau wedi llunio'u rhaglenni. Bydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn, Cymdeithas y Chwiorydd, y Grŵp Help Llaw a'r Gymdeithas. Fe fydd paratoi ar gyfer ein Gŵyl o Ddiolchgarwch am ddaioni Duw i ni; cyn inni droi, bydd addurniadau o'n cwmpas a ninnau'n paratoi i ddathlu'r Nadolig a dyfodiad "Un bach i'n byd".

Y trueni yw mai criw cymharol fychan yw'r rhai sydd ynglŷn â'r gweithgareddau. Fe fyddai'n hyfryd dweud "Croeso 'nôl" wrth nifer sydd, i bob pwrpas, wedi cefnu ar weithgarwch yr Eglwys. Dowch yn ôl, felly, i roi ysgwydd dan y baich.

Yn gywir

*Robert W Jones*

## Rhagfyr

**4** Parch Ddr John Tudno Williams

7 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
"Cyfnod yr Adfent"

**11** Parch W J Edwards

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn
Dathlu'r Nadolig
gyda'r Parch R W Jones



**18** Gwasanaethau Nadolig dan
ofal y Bugail

**25** Dydd Nadolig
Gwasanaeth Cymun dan arweiniad y Bugail am 9 o'r gloch

31 Gwylnos dan arweiniad y Bugail am 11.30 o'r gloch

*Aelodau Pwyllgor y Gymdeithas Lenyddol*

Mrs Gaenor Hall
Mrs Shân Hayward
Mr Dewi Hughes
Mr Erddyn James
Mrs Buddug James Jones
Mrs Janet Roberts
Mrs Brenda Williams

**NODIADAU ARIANNOL**

**Cyfraniadau a chau'r llyfrau cyfrifon yn brydlon am 2005**

Mynegwn ein diolch eto eleni i nifer fawr o'r aelodau am gyfrannu mewn da bryd. Serch hynny, fe apeliwn eto ar i'r gweddill ohonoch dalu eich cyfraniadau yn fuan, ac yn sicr erbyn **30 Tachwedd**, os gwelwch yn dda. Mae prydlondeb talu yn gwir hwyluso'r Trysorydd i gau'r llyfrau yn gynnar yn Ionawr 2006.

**Cymorth Rhoddion**

Erbyn hyn, mae nifer dda o'r aelodau yn manteisio ar yr arfer o gyfrannu drwy Gymorth Rhoddion, ac anogir y gweddill ohonoch sy'n talu treth incwm ar y raddfa sylfaenol i ddilyn yr un patrwm. Mae'r ad-daliad y gellir ei hawlio o'r dreth incwm yn ffynhonnell ychwanegol ddefnyddiol iawn o arian i'r Eglwys, ac yn ddi-gost i'r unigolyn.

*Gallwch gael ffurflenni Cymorth Rhoddion oddi wrth yr Ysgrifennydd Ariannol, Mr D Bryn Lloyd.*


Llawer o ddiolch eto i bawb am bob cefnogaeth i'n hymdrechion ni yma yn y Garn.

**Cymdeithas Lenyddol y Garn**

*Swyddogion 2005–2006*

Llywydd: Parch Robert W Jones
Cadeirydd: Mr Vernon Jones
Is-gadeirydd: Mrs Llinos Dafis
Ysgrifennydd: Mrs Mary Thomas
Trysorydd: Mrs Bet Evans
*Tocyn Aelodaeth £1*
Trefnyddion y Bwyd: Mrs Elina Davies
Mrs Margaret Rees

## *Myfyrdod*



*Darllen*: Salm 119: 1–16

Pwyslais ar anghydffurfiaeth a geir o hyd yn y Beibl. Dyna oedd pwyslais Moses i'w bobl cyn iddynt groesi i Wlad yr Addewid. "Nid ydych i wneud fel y gwneir yng ngwlad yr Aifft, lle buoch yn byw, nac fel y gwneir yng ngwlad Canaan, lle'r wyf yn mynd â chwi." Dyna gyngor Paul i'w ddarllenwyr yn Rhufain, "A pheidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn …" A dyna a wnaeth Iesu yn ei Bregeth ar y Mynydd: troi ffyrdd y byd a'u hwyneb i waered gan wneud i ni wynebu ffordd o fyw ac o weithredu na wybu'r byd amdani—maddeuant i elynion, pwyslais ar drugaredd ac addfwynder a dibyniaeth ar Dduw am ein bywyd a'n cynhaliaeth,

Esboniad ein cyfnod ni ar fod yn anghydffurfiwr yw bod pob un yn cadw i'w safon ei hun, beth bynnag fo honno! Pwyslais y Beibl, fodd bynnag, yw fod safon a sylfaen ein hanghydffurfiaeth i'w cael yng Ngair Duw. Drwy ddarllen y Gair, fe ddysgwn nid yn unig yr hyn a wnaeth Duw, ond hefyd yr hyn a fynn Duw i ni ei wneud; drwy ein trwytho ein hunain yn ei oleuni a'i wirionedd, fe ddaw yn rhan annatod o'n holl bersonoliaeth. Fel y dywed Paul, "… ond gadewch i Dduw eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, a'ch galluogi i ganfod beth yw ei ewyllys." Rhoi cyfle i hynny ddigwydd y mae pob addoliad.

Nerth dy gariad ynof
Dry dy ddeddfau'n gân.

## *Chwiorydd y Garn*

Daeth tymor yr hydref heibio unwaith eto ac amser i ail-gydio yng ngweithgareddau'r chwiorydd ar ôl seibiant yr haf.

Yn barod, cafwyd un cyfarfod ar ddydd Mercher cyntaf fis Medi yng nghwmni Meinir Lowry, pryd y cafwyd ganddi—trwy gyfrwng tâp—atgofion canrif o hanes gan ei thad, sef y diweddar T. J. Hughes, Rhoslan. Cafwyd pnawn o fwynhad a sbardunwyd amryw oedd yn bresennol i gyfrannu eu hatgofion hwythau.

Ddydd Mercher, 5 Hydref, am 2.30 o'r gloch, byddwn yn cynnal gwasanaeth o ddiolchgarwch o dan ofal y Parch Nicholas Bee.

Estynnir gwahoddiad cynnes i unrhyw un ymuno â ni: gwŷr, gwragedd a phlant, yn y gwasanaeth hwn, yn ogystal â'r cyfarfodydd eraill a gynhelir ar y pnawn Mercher cyntaf yn y mis. Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 2.30 o'r gloch, a bydd cyfle wedyn i fwynhau paned a sgwrs, gyda'r stondin arferol.

## *Y Barbeciw*



Nos Wener, 24 Mehefin, cafwyd noson hwyliog a thra llwyddiannus i'r barbeciw er gwaetha'r tywydd.

Yn ychwanegol at gywair hyfryd y noson codwyd swm o £909 tuag at gyllid yr eglwys.

Dilyna'r llwyddiant hwn y llwyddiannau a gaed yn 2003 yn Gwyniarth, Tai Gwynion, ac ym Mhencefn yn 2004; diolchwn i bawb a gyfrannodd trwy amryfal ffyrdd, yn enwedig trwy roi benthyg tir ac adeiladau, ac i'r Pwyllgor Chwiorydd am eu trefniadau.

## Tachwedd

| | |
|---|---|
| 2 | Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch<br>Mrs Anne Gwynne, Tyn'reithin – 'Teithiau Tramor' |
| **6** | Arwyn Pierce |
| **13** | Beti Wyn Holmes |
| 14 | Cyfarfod Swyddogion am 7 o'r gloch |
| 18 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>Jon Meirion Jones, Llangrannog – 'Mab i Forwr' |
| **20** | Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore<br>Oedfa gymun ym Methlehem, Llandre, dan ofal y Bugail |
| 26 | Ffair y Capel yng ngofal y Chwiorydd |
| **27** | Parch Tudor Davies |

## *Ail-beintio Bethlehem*

Roedd yna brysurdeb mawr yn ysgoldy Bethlehem, Llandre, yn ystod wythnosau'r haf pan fu Erddyn James, gyda chymorth ei frawd Ieuan, yn treulio'i ddyddiau yn peintio tu fewn i'r adeilad.

Mae dros ugain mlynedd er pan gafodd Bethlehem ei beintio ddiwethaf ac mae'n awr yn edrych yn arbennig o drawiadol ar ei newydd wedd – yn deilwng iawn o addoldy a chanolfan i gymuned fywiog.

Gyda'n diolch yn fawr i Erddyn ac Ieuan.

Y Bugail a'r Swyddogion

***Grŵp Help Llaw***



Yn ein cyfarfod cyntaf ar 14 Medi penderfynwyd ein bod yn agor y festri o 2.30 o'r gloch ymlaen ar brynhawn Mercher, oddieithr y dydd Mercher cyntaf ym mhob mis, fel y gall unrhyw un droi i mewn am sgwrs a phaned ac, os dymunant, ymuno yn y gweithgareddau yma:

- Casglu stampiau er budd OXFAM
- Paratoi bocsys ar gyfer Operation Christmas Child 2005
- Cefnogi Tŷ Gobaith trwy brynu a gwerthu cardiau Nadolig
- Cefnogi gwaith y Cwfaint yn Lithuania trwy wau dillad cynnes a chasglu teganau meddal ac ati. Cyfrannwyd £150 at waith y Cwfaint dros y tlodion trwy law Mrs Eirlys Phillips, sy'n gadael yn llwythog am Lithuania cyn diwedd Medi.

Cyfrannwyd £105 at ymgyrch Cymorth Cristnogol 'Ailgylchu Geifr'.

Diolch am bob cyfraniad, ac os gallwch helpu mewn unrhyw fodd cysylltwch â

Shân Hayward (828268) neu Bethan Jones (611502)

**Hydref**

| | |
|---|---|
| **2** | Richard Ll. Jones |
| 5 | Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch<br>Gwasanaeth o ddiolchgarwch dan ofal y Parch Nicholas Bee |
| **9** | Parch Stanley G. Lewis |
| 14 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>Darlith Agoriadol gan Caryl Lewis – Enillydd Llyfr y Flwyddyn |
| **16** | Gwasanaeth Diolchgarwch<br>dan arweiniad y Bugail yn y bore<br>Oedfa gymun yn yr hwyr |
| 21 | Cwrdd Diolchgarwch Bethlehem, Llandre<br>dan arweiniad Walford Gealy am 7 o'r gloch |
| **23** | Arthur Roderick<br>Bugail |
| 28 | Cyfarfod Swyddogion yr Ofalaeth am 7.30 o'r gloch |
| **30** | Parch Ddr John Tudno Williams |



*Tydi sy deilwng oll o'm cân,*
*fy Nghrëwr mawr a'm Duw;*
*dy ddoniau di o'm hamgylch maent*
*bob awr yr wyf yn byw.*

# GWEDDI'R ARGLWYDD



Ni fedraf ddweud EIN
os ydw i'n hunanol fy ysbryd.

Ni fedraf ddweud TAD
os na ddangosaf y berthynas yn fy mywyd
beunyddiol.

Ni fedraf ddweud YR HWN WYT YN Y NEFOEDD
os ydw i'n meddwl mwy am y ddaear
ac yn storio trysor i mi fy hun.

Ni fedraf ddweud SANCTEIDDIER DY ENW
os nad ydw i, a elwir yn Ei enw, yn sanctaidd.

Ni fedraf ddweud DELED DY DEYRNAS
os nad ydw i'n gwneud popeth i'w hyrwyddo.

Ni fedraf ddweud GWNELER DY EWYLLYS
os ydw i'n cwestiynu, yn ddigofus ac yn anufudd i'w ewyllys Ef.

Ni fedraf ddweud MEGIS YN Y NEF, FELLY AR Y DDAEAR
HEFYD os nad ydw i'n barod i gysegru fy mywyd iddo Ef.

Ni fedraf ddweud DYRO I NI HEDDIW EIN BARA
BEUNYDDIOL os nad ydw i'n byw ac yn gweithio'n gyfiawn.

Ni fedraf ddweud MADDAU I NI EIN DYLEDION FEL Y
MADDEUWN NINNAU I'N DYLEDWYR
os ydw i'n genfigennus o rywun ac yn casáu eraill.

Ni fedraf ddweud AC NAC ARWAIN NI I BROFEDIGAETH
os ydw i'n rhoi fy hunan yn fwriadol mewn sefyllfa i gael fy
nhemtio.

Ni fedraf ddweud EITHR GWARED NI RHAG DRWG
os nad ydw i'n fodlon ymladd drwg yn ysbrydol ag arf
gweddi.

Ni fedraf ddweud CANYS EIDDOT TI YW'R DEYRNAS
os nad ydw i'n ymddwyn yn ffyddlon i Iesu Grist.

Ni fedraf ddweud A'R NERTH
os byddaf ofn beth a feddyliai dynion a chymdogion ohonof.

Ni fedraf ddweud A'R GOGONIANT
os ydw i'n chwilio am ogoniant i mi fy hun.

Ni fedraf ddweud YN OES OESOEDD
os yw fy ngorwel yn rhwym wrth amser dyn ac nid wrth y
tragwyddol.

Elwyn Parri, Caerffili
(O'r *Goleuad*, 9 Medi 2005)